Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 706 (Cy.85)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud	- -	*12 Mawrth 2003*
Yn dod i rym	- -	*28 Mawrth 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 76(4) a 140(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac sydd erbyn hyn wedi eu breinio ynddo i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

Enw, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 28 Mawrth 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio'r Rheoliadau

2. Mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2003 neu wedi hynny, diwygir Rheoliad 3 o Reoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000(**3**)—

(a) drwy hepgor paragraff (d); a

(b) drwy ychwanegu ar y diwedd—

"(j) Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol".

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2000/718.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

John Marek

12 Mawrth 2003 Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adrannau 78 a 79 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn darparu bod grant cynnal refeniw yn daladwy i unrhyw gorff sy'n darparu gwasanaethau i awdurdodau lleol ac sy'n gorff a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau. Breiniwyd y pwerau hyn bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000 drwy dynnu Corff Cydgysylltu yr Awdurdodau Lleol ar Fwyd a Safonau Masnach oddi ar y rhestr o gyrff penodedig a thrwy ychwanegu Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol. Mae'r diwygiadau yn effeithiol ar gyfer y blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2003 neu wedi hynny.